# A. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

## Cyflwyniad

Mae'r asesiad effaith hwn yn ystyried sut effaith y gallai ein cynnig i wahardd fêps untro ei chael ar bobl â nodweddion gwarchodedig a phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010: Oedran, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Hil, Crefydd, Rhyw, Cyfeiriadedd Rhywiol ac Anfantais Economaidd-gymdeithasol.

Rydym yn cydnabod yr effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar blant a phobl ifanc, felly rydym wedi cynnal **Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant** sy'n cynnwys camau lliniaru i fynd i'r afael â'r effeithiau hyn.

Yn ystod yr ymgynghoriad 'Creu cenhedlaeth ddi-fwg a mynd i'r afael â fepio ymhlith pobl ifanc', a gynhaliwyd yn 2023, mynegwyd pryderon ynglŷn â'r effaith bosibl y gallai gwahardd fêps untro ei chael ar roi'r gorau i smygu. Mae'r effeithiau posibl ar smygu tybaco, a'r effeithiau iechyd gwahaniaethol mewn grwpiau arbennig (e.e. pobl mewn lleoliadau caeedig fel carchardai, lleoliadau iechyd meddwl, cartrefi gofal a hostelau i'r digartref), wedi cael eu hystyried mewn **Asesiad o'r Effaith ar Iechyd** llawn.

Ymhellach, mae **Asesiad o'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol** wedi ystyried a yw ein cynnig yn cyfrannu at anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

O'r herwydd, dylid darllen yr asesiad effaith hwn ar y cyd â'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a'r Asesiad o'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

## Nodau'r Polisi a'r Effeithiau Arfaethedig

Disgwylir y bydd gwaharddiad ar gyflenwi fêps untro yng Nghymru yn dod i rym ar 1 Mehefin 2025, gan gyd-fynd â gwaharddiadau a gyflwynir yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn 2025.

### Fêps untro

Dyfeisiau batri yw fêps. Maent yn cynhesu hylif (nicotin fel arfer; er, mae hylifau nad ydynt yn cynnwys nicotin ar gael hefyd) er mwyn cynhyrchu aerosol a gaiff ei fewnanadlu. Mae fêps amldro a fêps untro i'w cael; ystyrir na ellir ailwefru nac ail-

lenwi fêps untro, felly cânt eu taflu ymaith ar ôl i'r wefr neu'r e-hylif ddod i ben. Fel arfer, mae fêps untro wedi'u llenwi'n barod gyda 2ml o e-hylif (oddeutu 600 o 'chwythiadau') a hyd at 2% o nicotin.

Dim ond fêps untro a gaiff eu gwahardd gan ein deddfwriaeth, yn cynnwys fersiynau sy'n cynnwys nicotin a fersiynau nad ydynt yn cynnwys nicotin. Bydd fêps y gellir eu defnyddio fwy nag unwaith yn parhau i fod ar gael. Caiff ein deddfwriaeth ei chyflwyno er mwyn mynd i'r afael â phryderon amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu a gwaredu swm sylweddol o fêps untro.

## Y prif nod – Mynd i'r afael â phryderon amgylcheddol

Mae'r cynnydd ym mhoblogrwydd fêps untro, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, wedi arwain at gynnydd mawr yn y gwastraff a gynhyrchir a'r adnoddau a ddefnyddir i wneud y cynhyrchion hyn. Yn dilyn hyn, ceir pryder cynyddol ynglŷn ag effaith amgylcheddol fêps untro. Yn 2023, amcangyfrifodd gwaith ymchwil gan Material Focus fod mwy na 5 miliwn o fêps untro yn cael eu sbwriela neu'n cael eu gwaredu mewn gwastraff cyffredinol bob wythnos yn y DU – bron i bedair gwaith yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Dim ond 17% o'r bobl a gymerodd ran yn yr astudiaeth a ddywedodd eu bod yn ailgylchu eu fêps.

Pan gaiff fêps untro eu sbwriela, maent yn cyflwyno plastig, halen nicotin, metelau trwm, plwm, mercwri a batris lithiwm-ïon fflamadwy i'r amgylchedd naturiol. Yn y pen draw, gall y cemegau hyn halogi dyfrffyrdd a phriddoedd a hefyd gallant fod yn wenwynig ac yn niweidiol i fywyd gwyllt. Pan gaiff fêps untro eu sbwriela, mae modd i'r casys plastig ddirywio a chreu microblastigau niweidiol. Yn ôl arolygon a gynhaliwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus, mae cynnydd mawr wedi bod mewn fêps untro yn ein hamgylchedd. Rhwng 2023/24, daethpwyd o hyd i fêps untro ar 10.2% o strydoedd ledled Cymru, ac amcangyfrifir bod 6700 o fêps yn cael eu sbwriela ar ein strydoedd ar unrhyw adeg arbennig.

Fel yn achos eitemau trydanol eraill, ni ddylid rhoi fêps mewn biniau gwastraff cyffredinol, yn arbennig felly gan y gallai eu batris lithiwm arwain at dân. Yn ôl gwaith ymchwil, amcangyfrifir bod batris lithiwm-ïon yn gyfrifol am oddeutu 48% (mwy na 200) o danau gwastraff yn y DU bob blwyddyn. Hefyd, oherwydd y ffordd y caiff fêps untro eu gwneud, maent yn anodd eu hailgylchu.

Ymhellach, mae effeithiau amgylcheddol eraill sy'n deillio o gynhyrchu fêps untro yn destun pryder. Mae fêps untro nodweddiadol yn cynnwys plastig, copr, cobalt a batri lithiwm. Mae lithiwm a chobalt yn hanfodol ar gyfer cynhyrchu dyfeisiau electronig, gwneud batris a chynhyrchu ynni. Mae'r galw cynyddol am fêps untro wedi arwain at gynyddu'r galw am y deunyddiau crai hollbwysig hyn. Mae gwaith ymchwil yn amcangyfrif bod cyfanswm y fêps untro a brynir bob blwyddyn yn cynnwys digon o lithiwm i ddarparu batris ar gyfer 5,000 o geir trydan. O'r herwydd, caiff adnoddau gwerthfawr eu gwastraffu mewn eitemau byr iawn eu hoes a gaiff eu hailgylchu'n wael, er bod dewisiadau amgen amldro ar gael yn rhwydd.

Yn ogystal â cholli adnoddau yn yr economi, mae effaith amgylcheddol ynghlwm wrth echdynnu deunyddiau crai a chynhyrchu a gweithgynhyrchu fêps untro. Y rhai mwyaf amlwg yw allyriadau nwyon tŷ gwydr a defnyddio dŵr yn y broses weithgynhyrchu. Trwy dynnu'r cynhyrchion hyn oddi ar y farchnad, bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd cam uniongyrchol tuag at wireddu ymrwymiad i fynd i'r afael â newid hinsawdd a'r argyfwng hinsawdd.

## Manteision iechyd ychwanegol

Yn ogystal â'r effaith amgylcheddol sylweddol, deellir bod fêps untro yn ysgogi'r cynnydd diweddar a welir ymhlith nifer y bobl ifanc sy'n fepio. Dengys data fod nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n defnyddio fêps wedi treblu yn ystod y tair blynedd diwethaf. Oherwydd y nicotin a gynhwysir mewn fêps a'r niwed hirdymor anhysbys, mae'n bosibl y gallai fêps achosi niwed a chaethiwed ymhlith plant. Yng Nghymru, amcangyfrifir bod 5% o ddysgwyr oedran uwchradd yn defnyddio fêps yn wythnosol ac mai fêps untro yw'r ddyfais fwyaf cyffredin a ddefnyddir gan blant a phobl ifanc.

Yn ôl Adroddiad Blynyddol Prif Swyddog Meddygol Cymru, *Siapio ein Hiechyd*, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023: "*Er ei bod yn wir bod y cynhyrchion hyn yn parhau i fod yn gymharol newydd a bod effaith hirdymor eu defnydd yn datblygu o hyd, mae'n amlwg bod rhaid bod yn ofalus er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc a phobl nad ydynt yn smygu. Rydym yn wynebu perygl gwirioneddol yn y DU o greu cenhedlaeth newydd o bobl ifanc sy'n gaeth i nicotin oni bai ein bod yn gweithredu ar frys. Felly, mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn dysgu o'n profiad gyda thybaco a sicrhau ein bod yn gweithio mor galed â phosibl i atal plant a phobl ifanc rhag defnyddio e-sigaréts.*"

## Nodau ehangach y polisi

Mae gan Lywodraeth Cymru agenda gynaliadwyedd uchelgeisiol ac mae wedi ymrwymo i fynd i'r afael â llygredd amgylcheddol. Er bod cyfraddau ailgylchu Cymru yn cael eu cydnabod yn rhyngwladol, mae gwastraff plastig yn dal i fod yn broblem. Mae eitemau plastig untro yn cyfateb i gyfran helaeth o'r sbwriel a welir ar ein strydoedd, yn ein parciau ac yn ein moroedd. Mae cael gwared ag eitemau plastig untro o'r ffrwd wastraff, ynghyd ag atal cynhyrchion o'r fath rhag effeithio ar yr amgylchedd yn y lle cyntaf, yn flaenoriaeth allweddol yng Nghymru. Caiff yr amcan ei ymgorffori yn nodau ac uchelgeisiau ehangach Llywodraeth Cymru, a hefyd mewn deddfwriaeth sylfaenol a strategaethau ehangach.

Mae Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 yn nodi ymrwymiad, sef: "Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn". O dan yr addewid hwn, ceir ymrwymiad penodol i "[Dd]eddfu i ddiddymu'r defnydd o blastigau untro sydd yn aml yn cael eu taflu fel sbwriel".

Mae cyflwyno gwaharddiad ar argaeledd y cynhyrchion problemus diangen hyn yn rhan o becyn o fesurau ehangach gan Lywodraeth Cymru. Nod y mesurau hyn yw

lleihau’r effaith negyddol a gaiff sbwriela, llygredd plastig a newid hinsawdd ar ein hamgylchedd ac ar iechyd plant a phobl ifanc, a allai ddioddef niwed yn sgil caethiwed i nicotin, sylweddau peryglus a gwastraff amgylcheddol. Nod arall y polisi yw atal normaleiddio’r arfer o fepio a smygu ymhlith plant a phobl ifanc.

Ein nod yw ysgogi newid diwylliannol lle bydd gwastraff diangen yn cael ei atal a lle bydd deunyddiau a deflir ymaith yn cael eu hystyried fel adnoddau yn hytrach na gwastraff. Mae cyflwyno’r cynigion hyn yn gam allweddol arall yn ein dull graddol o symud oddi wrth ein diwylliant gwastraffus. Trwy gael gwared â’r cynhyrchion hyn o’r gadwyn gyflenwi, byddwn yn helpu i atal y math hwn o lygredd rhag digwydd yn y lle cyntaf. Hefyd, bydd y cynigion yn annog busnesau i greu dewisiadau amgen a fydd yn llai niweidiol i’r amgylchedd, y gellir eu hailgylchu’n rhwyddach ac y gellir eu defnyddio fwy nag unwaith. Ymhellach, bydd y cynigion hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth defnyddwyr o’r effaith niweidiol a gaiff y cynhyrchion hyn ar yr amgylchedd.

## Sut effaith a gaiff y cynigion hyn ar bobl â nodweddion gwarchodedig a phobl sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig, fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol ar Weinidogion Cymru i roi ‘sylw dyladwy’ i’r angen i wneud y canlynol:

- **Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid anghyfreithlon, ynghyd ag ymddygiadau eraill a waherddir gan y Ddeddf;**

- **Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig a’r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd warchodedig, sy’n cynnwys rhoi sylw dyladwy, yn arbennig, i’r angen i wneud y canlynol:**

    - **Dileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig;**

    - **Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig sy’n wahanol i anghenion pobl nad ydynt yn rhannu nodwedd warchodedig. Mae’r camau o ran diwallu anghenion pobl anabl sy’n wahanol i anghenion pobl nad ydynt yn anabl yn cynnwys, yn arbennig, camau i ystyried eu hamhariadau;**

    - **Annog pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn unrhyw weithgaredd arall lle mae cyfranogiad pobl o’r fath yn anghymesur o isel; a**

- **Meithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig a’r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd warchodedig, yn cynnwys rhoi sylw dyladwy, yn arbennig, i’r angen i fynd i’r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth.**

## Ymgynghori ynglŷn â’r cynigion

Ar y cyd â Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth y DU a’r Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad pedair gwlad, sef *Creu cenhedlaeth ddi-fwg a mynd i’r afael â fepio ymhlith pobl ifanc*, a gynhaliwyd rhwng Hydref a Rhagfyr 2023. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys amrywiaeth o gynigion, yn cynnwys ystyried gwahardd yr arfer o werthu a chyflenwi fêps untro ynghyd â chyflwyno mesurau eraill i leihau eu heffaith amgylcheddol.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys pum cwestiwn yn ymwneud â chynigion i wahardd yr arfer o gyflenwi neu werthu fêps untro. Cafodd yr ymgynghoriad 27,921 o ymatebion; roedd 1,018 o’r ymatebion hyn yn deillio o Gymru.

Roedd yr ymatebion a gafwyd i’r ymgynghoriad pedair gwlad yn cefnogi’r syniad y dylid cyfyngu ar werthu a chyflenwi fêps untro. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o blaid y mesurau arfaethedig ar gyfer lleihau sbwriel cynhyrchion plastig untro, yn ogystal â mynd i’r afael â fepio ymhlith pobl ifanc. Yn achos y rhai a oedd yn anghytuno â’r gwaharddiad, roedd y pryderon yn cynnwys yr effaith ar raglenni rhoi’r gorau i smygu a’r dymuniad i ganolbwyntio ar wella dulliau rheoli gwastraff yn hytrach na chyflwyno gwaharddiadau.

Cadwodd yr holl ymgysylltu at ein hymrwymiadau o dan Gonfensiwn Fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd ar Reoli Tybaco (FCTC), Erthygl 5.3. Mae hyn yn sicrhau y caiff ein polisïau o ran rheoli tybaco eu diogelu rhag buddiannau masnachol a buddiannau breintiedig eraill y diwydiant tybaco.

### Trosolwg o’r ymatebion a ddeilliodd o Gymru

O ran yr effeithiau amgylcheddol, roedd yr ymatebwyr yn bryderus ynglŷn â’r cynnydd mewn sbwriel fêps untro a’r effaith a gaiff hyn ar yr amgylchedd ac ar fywyd gwyllt (gwenwyno nicotin/cemegau niweidiol yn trwytholchi). Mewn safbwyntiau eraill, tynnwyd sylw at wastraffu adnoddau oherwydd diffyg argaeledd cyfleusterau ailgylchu a’r niwed a ddaw i ran yr amgylchedd yn sgil cloddio am lithiwm ar gyfer batris fêps. Hefyd, soniwyd am bryderon yn ymwneud â’r cynnydd mewn gwastraff plastig, ynghyd â’r perygl o du tanau gan fod fêps untro yn cael eu gwaredu yn y ffordd anghywir.

Hefyd, roedd y gefnogaeth dros gyflwyno gwaharddiad yn canolbwyntio ar bryderon yn ymwneud â’r ffaith bod plant a phobl ifanc yn gallu cael gafael ar fêps untro a’r

effeithiau niweidiol posibl a gaiff fêps untro ar eu hiechyd. Cafwyd pwyslais cryf ar ddulliau gorfodi er mwyn rhoi’r gorau i’r arfer o werthu fêps untro i blant a phobl ifanc, yn ogystal â’r effaith negyddol bosibl ar blant a phobl ifanc sy’n ddibynnol ar nicotin (h.y. lleihau mynediad at gynnyrch y mae’r grŵp hwn yn fwy tebygol o’i ddefnyddio). Awgrymwyd bod angen darparu cymorth digonol er mwyn lleihau’r effaith negyddol ar ddysgu a llesiant ar ôl cael gwared â mynediad at fêps untro. Ceir asesiad llawn o effeithiau posibl ein cynigion ar blant a phobl ifanc yn ein **Hasesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant.**

Drwy gydol yr ymgynghoriad, roedd yr ymatebwyr yn cytuno’n gryf y byddai potensial amgylcheddol a manteision cymdeithasol ein cynigion yn drech na’r effeithiau negyddol posibl ar bobl yng Nghymru. O ran yr ymatebion a oedd yn ymwneud yn benodol â Chymru, cafwyd 16 o ymatebion gan sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol, ac o blith y rhain roedd 73% yn cytuno y dylai’r cyfyngiadau fod ar ffurf gwahardd yr arfer o werthu a chyflenwi fêps untro. Cafwyd nifer o ymatebion gan sefydliadau yng Nghymru, yn cynnwys awdurdodau lleol, Safonau Masnach Cymru, Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol, grwpiau sy’n cynrychioli plant, busnesau/manwerthwyr a sefydliadau anllywodraethol.

Nododd yr ymatebwyr fod dewisiadau amgen amldro i’w cael ar y farchnad eisoes. Fodd bynnag, mynegodd nifer o unigolion a sefydliadau bryderon ynghylch yr effaith anghymesur bosibl ar wahanol grwpiau, yn benodol felly unigolion mewn cyfleusterau gofal iechyd ac unigolion ag amhariadau dysgu, amhariadau ar y golwg neu broblemau o ran medrusrwydd corfforol.

- Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cytuno â’r gwaharddiadau, ond nodwyd y gallai smygwyr agored i niwed – er enghraifft, rhai mewn lleoliadau iechyd meddwl, lleoliadau gwarchodol a lleoliadau caeedig (e.e. carchardai, cartrefi gofal, hostelau i’r digartref) – fod angen mynediad at ddyfeisiau untro. Mynegwyd pryderon tebyg yn ymwneud â phobl â phroblemau medrusrwydd corfforol.

- Roedd Snap Cymru o’r farn y byddai’r gwaharddiadau’n effeithio ar bobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig ac mai pobl ag incwm gwario is a fyddai’n dioddef waethaf yn hyn o beth. Nodwyd hefyd y byddai unigolion â phroblemau gyda’u dwylo yn cael anhawster i lenwi fêps amldro, ac y byddai tasg o’r fath yn amhosibl i rai pobl. Yn ôl Snap Cymru, ni fyddai’r holl bobl o dan sylw â gofalwyr a allai lenwi’r dyfeisiau ar eu rhan; a hyd yn oed yn achos pobl â gofalwyr, byddai hynny’n eu gwneud yn fwy dibynnol ar bobl eraill. Gallai hynny beri i rai defnyddwyr ddychwelyd at sigaréts.

## Pobl anabl, pobl â chyflyrau iechyd hirdymor a/neu smygwyr hŷn

Bydd gwahardd yr arfer o werthu a chyflenwi fêps untro yn effeithio ar bawb sy'n defnyddio fêps untro ar hyn o bryd, gan orfodi defnyddwyr y presennol a'r dyfodol i brynu opsiynau amgen (er enghraifft, fêps amldro). Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r effaith ar bobl anabl, yn cynnwys pobl â salwch hirdymor sy'n peri iddynt gael problemau gyda medrusrwydd corfforol (e.e. Clefyd Parkinson) a phobl â chyflyrau iechyd meddwl neu anawsterau dysgu. Dywedwyd y gallai'r grwpiau hyn ddioddef effaith anghymesur. Awgryma tystiolaeth Arolwg Cenedlaethol Cymru fod nifer y bobl sy'n smygu rywfaint yn uwch ymhlith pobl anabl o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl.

Gallai hyn effeithio mwy ar rai pobl â nodweddion gwarchodedig o gymharu â phobl eraill. Awgryma'r dadansoddiad cychwynnol y gallai'r cynnig gael effaith fwy sylweddol ar bobl anabl ac unigolion hŷn. Gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol pan ddefnyddir fêps i helpu pobl i roi'r gorau i smygu. Caiff effeithiau ein cynigion ar roi'r gorau i smygu eu hystyried yn ein **Hasesiad o'r Effaith ar Iechyd.**

Ar hyn o bryd, nid yw'n ymddangos bod ffactorau eraill yr ymchwiliwyd iddynt mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig eraill yn esgor ar broblemau sylweddol yn ymwneud â chydraddoldeb. Fodd bynnag, efallai mai diffyg argaeledd gwybodaeth gyhoeddedig ac amgylchiadau unigol y rhai yr effeithir arnynt sy'n gyfrifol am hyn. Wrth ymgysylltu'n uniongyrchol gydag unigolion a grwpiau cydraddoldeb, efallai y deuir o hyd i effeithiau eraill. Byddwn yn parhau i geisio'r wybodaeth hon a byddwn yn parhau i ddiwygio ein hasesiad effaith pan fo angen.

## Effeithiau Cadarnhaol

Bydd cyflwyno ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol sylweddol trwy leihau yn syth faint o gynhyrchion plastig untro a gaiff eu sbwriela, yn ogystal â chael effaith gadarnhaol hirdymor trwy leihau faint o blastig a geir yn yr amgylchedd. Bydd hyn yn lleihau'r effaith negyddol a gaiff sbwriela, llygredd plastig a newid hinsawdd ar ein hamgylchedd a'n hiechyd a'n llesiant, gan ddarparu un o'r anghenion iechyd mwyaf sylfaenol – sef aer glân a dŵr diogel.

## Effeithiau Negyddol

Er mwyn defnyddio fêps amldro rhaid ail-lenwi siambrau neu adnewyddu cetris, ac fe allai hynny effeithio ar bobl â medrusrwydd corfforol cyfyngedig a/neu amhariadau ar y golwg. Ar hyn o bryd, ceir nifer o wahanol fathau o fêps amldro ac mae'n bosibl bod rhai mathau yn haws i unigolion â medrusrwydd corfforol cyfyngedig neu amhariadau ar y golwg eu defnyddio.

Mae dyfeisiau amldro y gellir eu hail-lenwi wedi datblygu’n sylweddol gyda’r bwriad o’u gwneud yn haws ac yn fwy hwylus i’w defnyddio, yn cynnwys dyfeisiau fel pecynnau podiau, dyfeisiau â thanciau agored, cetris ail-lenwi a phodiau caeedig wedi’u llenwi ymlaen llaw. Fodd bynnag, ar hyn o bryd efallai nad yw’r dyfeisiau amldro hyn yn cynnig yr un lefel o annibyniaeth ac urddas i’r bobl sy’n eu defnyddio.

### Camau Lliniaru

Byddwn yn gweithio’n agos gyda rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth o faterion hygyrchedd yn ymwneud â fêps amldro.

## Pa rwystrau, os o gwbl, a ddaw i ran pobl sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig? A ellir lleihau, dileu neu liniaru’r rhwystrau hyn?

Nid bwriad y polisi yw mynd i’r afael yn benodol â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig. Fodd bynnag, gan fod y cynigion wedi cael cefnogaeth aruthrol, nid ydym yn credu y byddai cyflwyno’r cynigion yn achosi gwrthdaro rhwng y rhai sy’n rhannu nodwedd warchodedig a’r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd warchodedig.

Er y bydd gweithredu’r cynigion hyn yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar ddiogelu ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol, cydnabyddwn y gallent gael effaith negyddol yn y tymor byr ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Nid ydym yn credu bod y cynnig yn wahaniaethol nac yn anghyfreithlon o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, a go brin y bydd y polisi’n arwain at effaith wahaniaethol. Serch hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn monitro’r modd y rhoddir y cynigion ar waith a bydd yn parhau i fod yn effro i dystiolaeth newydd a all awgrymu bod gwahaniaethu neu ymddygiad gwaharddedig arall yn digwydd, gan gymryd camau priodol i atal hynny.

### Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig:

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)<br><br>**Pobl Hŷn** | <u>Effaith Negyddol</u><br><br>Efallai y bydd cael gwared â fêps untro yn effeithio ar bobl hŷn.<br><br><u>Effaith Gadarnhaol</u> | <u>Effaith Negyddol</u><br><br>Yn Creu cenhedlaeth ddi-fwg a mynd i’r afael â fepio ymhlith pobl ifanc: ymateb y llywodraeth, nodir y gallai pobl hŷn | Datblygwyd dyfeisiau y gellir eu hail-lenwi a’u hailddefnyddio gyda’r bwriad o’u gwneud yn haws ac yn fwy hwylus i’w defnyddio, yn cynnwys dyfeisiau fel pecynnau podiau, dyfeisiau â |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae pobl hŷn yn arbennig o agored i lygredd aer. Disgwylir y bydd ein cynigion yn gwella'r amgylchedd, yn cynnwys ansawdd yr aer.<br><br>Bydd cyflwyno'r cynigion yn lleihau llygredd aer ac yn darparu mannau gwyrdd a mannau agored glanach, fel traethau, coedwigoedd, parciau a chefn gwlad trwy gerdded, rhedeg, beicio, gwneud gwaith cadwraeth a chwarae. | ddioddef yn sgil cael gwared â fêps untro, yn enwedig os ydynt yn eu defnyddio i roi'r gorau i smygu.<br><br><u>Effaith Gadarnhaol</u><br><br>Mae tystiolaeth yn un o adroddiadau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn tynnu sylw at effeithiau newid hinsawdd ar lesiant poblogaeth Cymru. | thanciau agored, cetris ail-lenwi a phodiau caeedig wedi'u llenwi ymlaen llaw. Fodd bynnag, ar hyn o bryd efallai nad yw'r dyfeisiau amldro hyn yn cynnig yr un lefel o annibyniaeth ac urddas i'r bobl sy'n eu defnyddio.<br><br>Bydd fêps amldro a chymhorthion rhoi'r gorau i smygu, yn cynnwys therapi disodli nicotin, hefyd yn opsiwn amgen. |
| Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd[1] a sut gallai eich cynnig achosi'n anfwriadol, neu sut gellid ei ddefnyddio'n rhagweithiol i ddileu, y rhwystrau sy'n anablu pobl sydd â gwahanol fathau o amhariadau) | <u>Effaith Negyddol</u><br><br>Efallai y bydd cael gwared a fêps untro yn effeithio ar bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd hirdymor.<br><br><u>Effaith Gadarnhaol</u><br><br>Mae pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd hirdymor yn arbennig o agored i lygredd aer. Disgwylir y bydd ein cynigion yn gwella'r amgylchedd, yn cynnwys ansawdd yr aer. | <u>Effaith Negyddol</u><br><br>Yn Creu cenhedlaeth ddi-fwg a mynd i'r afael â fepio ymhlith pobl ifanc: ymateb y llywodraeth, nodir y gallai pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd hirdymor ddioddef yn sgil cael gwared â fêps untro, yn enwedig os ydynt yn eu defnyddio i roi'r gorau i smygu.<br><br><u>Effaith Gadarnhaol</u><br><br>Mae tystiolaeth yn un o adroddiadau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn tynnu sylw at effeithiau newid hinsawdd ar lesiant poblogaeth Cymru. | Datblygwyd dyfeisiau y gellir eu hail-lenwi a'u hailddefnyddio gyda'r bwriad o'u gwneud yn haws ac yn fwy hwylus i'w defnyddio, yn cynnwys dyfeisiau fel pecynnau podiau, dyfeisiau â thanciau agored, cetris ail-lenwi a phodiau caeedig wedi'u llenwi ymlaen llaw. Fodd bynnag, ar hyn o bryd efallai nad yw'r dyfeisiau amldro hyn yn cynnig yr un lefel o annibyniaeth ac urddas i'r bobl sy'n eu defnyddio.<br><br>Bydd fêps amldro a chymhorthion rhoi'r gorau i smygu, yn cynnwys therapi disodli nicotin, hefyd yn opsiwn amgen. |

[1] Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Deallwn na chaiff pobl anabl eu hanablu gan eu hamhariadau, ond yn hytrach gan rwystrau y dônt ar eu traws yn y gymdeithas. Sicrhau bod y cynnig yn cael gwared â rhwystrau, yn hytrach na chreu rhwystrau, yw'r ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl. I gael rhagor o wybodaeth, chwiliwch am 'model cymdeithasol' ar y rhyngrwyd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bydd cyflwyno'r cynigion yn lleihau llygredd aer ac yn darparu mannau gwyrdd a mannau agored glanach, fel traethau, coedwigoedd, parciau a chefn gwlad trwy gerdded, rhedeg, beicio, gwneud gwaith cadwraeth a chwarae. | | |
| Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a Phobl Drawsryweddol) | Ni phennwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol penodol. | | Byddwn yn monitro'r modd y rhoddir y cynigion ar waith a byddwn yn parhau i fod yn effro i dystiolaeth newydd a all awgrymu bod gwahaniaethu neu ymddygiad gwaharddedig arall yn digwydd, gan gymryd camau priodol i atal hynny. |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | <u>Effaith Gadarnhaol</u><br><br>Bydd cyflwyno ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol sylweddol trwy leihau yn syth faint o gynhyrchion plastig untro a gaiff eu sbwriela, yn ogystal â chael effaith gadarnhaol hirdymor trwy leihau faint o blastig a geir yn yr amgylchedd. Bydd hyn yn lleihau'r effaith negyddol a gaiff sbwriela, llygredd plastig a newid hinsawdd ar ein hamgylchedd a'n hiechyd a'n llesiant, gan ddarparu un o'r anghenion iechyd mwyaf sylfaenol – sef aer glân a dŵr diogel.<br><br>Mae microblastigau, sef darnau plastig sy'n llai na 5mm, yn fwyfwy amlwg ym myd natur, ac mae astudiaethau a gyhoeddwyd yn ystod y | <u>Effaith Gadarnhaol</u><br><br>Mae mwy a mwy o ymchwil yn dangos bod plastig yn gwthio'i ffordd i'n cyrff trwy'r aer a anadlwn, y dŵr a yfwn a'r bwyd a fwytawn. Mae astudiaeth newydd yn dangos bod microblastigau wedi'u darganfod oddi mewn i frychau dynol, gan beri risg bosibl i iechyd a datblygiad y ffetws.<br><br>Yn ôl pob tebyg, mae microblastigau'n mynd i mewn i gyrff mamau trwy'r bwyd maent yn ei fwyta neu'r aer maent yn ei anadlu, gan symud wedyn i'r brychau. Er bod angen rhagor o ymchwil yn ymwneud â'r pwnc, credir y gallai'r microblastigau hyn amharu ar imiwnedd babanod. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | tair blynedd diwethaf, yn cynnwys nifer o astudiaethau o 2020, yn dangos bod y microblastigau hyn nid yn unig yn halogi'r môr a'r mannau rydym yn byw ynddynt, ond eu bod hefyd yn halogi'r aer, ein bwyd a hyd yn oed ein cyrff. | Hefyd, mae Sefydliad Iechyd y Byd o'r farn y gallai dod i gysylltiad â nicotin effeithio'n niweidiol ar ddatblygiad y ffetws ymhlith mamau beichiog. Ymhellach, mae nicotin yn cael effaith negyddol ar ddatblygiad yr ymennydd mewn plant a'r glasoed, gan arwain at ganlyniadau hirdymor o ran datblygiad yr ymennydd a chan arwain o bosibl at anhwylderau dysgu a gorbryder. | |
| Hil (yn cynnwys lleiafrifoedd ethnig gwahanol, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | Mae'n bosibl y gallai'r cynnig effeithio ar bobl nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf os na chaiff y gwaharddiad ei gyfathrebu'n effeithiol. Disgwylir y bydd y gyfran yn isel. | | Bydd cyfathrebu hygyrch a chynhwysol yn hollbwysig er mwyn sicrhau lefelau cyfranogi a deall uchel mewn perthynas â'r cynnig. |
| Crefydd, cred a dim cred | Ni phennwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol penodol. | | Byddwn yn monitro'r modd y rhoddir y cynigion ar waith a byddwn yn parhau i fod yn effro i dystiolaeth newydd a all awgrymu bod gwahaniaethu neu ymddygiad gwaharddedig arall yn digwydd, gan gymryd camau priodol i atal hynny. |
| Rhyw / Rhywedd | Ni phennwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol penodol. | | Byddwn yn monitro'r modd y rhoddir y cynigion ar waith a byddwn yn parhau i fod yn effro i dystiolaeth newydd a all awgrymu bod gwahaniaethu neu ymddygiad gwaharddedig arall yn digwydd, gan gymryd camau priodol i atal hynny. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfeiriadedd Rhywiol (Pobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Ni phennwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol penodol. | | Byddwn yn monitro’r modd y rhoddir y cynigion ar waith a byddwn yn parhau i fod yn effro i dystiolaeth newydd a all awgrymu bod gwahaniaethu neu ymddygiad gwaharddedig arall yn digwydd, gan gymryd camau priodol i atal hynny. |
| Priodas a Phartneriaeth Sifil | Ni phennwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol penodol. | | Byddwn yn monitro’r modd y rhoddir y cynigion ar waith a byddwn yn parhau i fod yn effro i dystiolaeth newydd a all awgrymu bod gwahaniaethu neu ymddygiad gwaharddedig arall yn digwydd, gan gymryd camau priodol i atal hynny. |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Pennwyd effeithiau negyddol a chadarnhaol.<br><br>Archwiliwyd y rhain yn llawn yn yr Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant. | | |
| Aelwydydd incwm isel | Pennwyd effeithiau negyddol a chadarnhaol.<br><br>Archwiliwyd y rhain yn llawn yn yr Asesiad o’r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. | | |

## Confensiynau Hawliau Dynol a'r Cenhedloedd Unedig

| Hawliau Dynol | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol? |
|---|---|---|---|
| Hawliau Dynol | Mae'r cynnig hwn yr un mor berthnasol i bawb, felly ni phennwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol penodol. | Bydd fêps amldro a chymhorthion rhoi'r gorau i smygu, yn cynnwys therapi disodli nicotin, yn parhau i fod yn opsiwn amgen.<br><br>Bydd canllawiau'n cael eu cyhoeddi i gynorthwyo i weithredu'r cynigion. Y bwriad yw darparu gwybodaeth a fydd yn sicrhau eglurder i swyddogion gorfodi, cyflenwyr, manwerthwyr a'r cyhoedd.<br><br>Bydd y canllawiau'n cael eu cyhoeddi a byddant ar gael i bob dinesydd mewn amrywiaeth o fformatau er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb. | Nid oes angen mesurau lliniaru. |

## Hawliau Dinasyddion y Swistir a'r Undeb Ewropeaidd/Ardal Economaidd Ewropeaidd

Ni phennwyd unrhyw effeithiau penodol.